



Richard Parry Jones  
Prif Weithredwr  
Cyngor Sir Ynys Môn  
Swyddfeydd y Cyngor  
Llangefni  
Ynys Môn, LL77 7TW

Cambrian Buildings  
Mount Stuart Square  
Cardiff CF10 5FL

Adeiladau Cambrian  
Sgwar Mount Stuart  
Caerdydd CF10 5FL

3 Tachwedd 2014

Annwyl Prif Weithredwr

### **Ynghylch: Adolygiad Cartref Gofal**

Gweler yn yr atodiad gopi o fy adroddiad o'r Adolygiad, 'Lle i'w Alw'n Gartref?', sy'n manylu ar ganfyddiadau fy adolygiad ffurfiol i ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yng Nghymru. Dylid nodi fod yr adolygiad hwn dan embargo tan y dyddiad cyhoeddi ar 10 Tachwedd 2014.

Ymgwymerwyd â'r Adolygiad gan ddefnyddio fy mhwerau statudol dan Adran 3 Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006, a hwn yw'r darn mwyaf o waith o'i fath erioed i gael ei gyflawni yng Nghymru, ac mae lleisiau pobl hŷn a'u teuluoedd yn ganolog iddo, ynghyd â thystiolaeth helaeth gan gyrff cyhoeddus, sefydliadau trydydd sector ac arbenigwyr gofal.

Fel corff statudol o dan atodiad 2 y Ddeddf, ac a enwir yn nghylch gorchwyl fy Adolygiad, hoffwn fachu ar y cyfle hwn y ddiolch i chi am eich ymatebion agored a thryloyw i fy ngheisiadau am dystiolaeth, hebddynt, ni fyddai wedi bod yn bosib cynhyrchu adolygiad na Gofynion Gweithredu mor gadarn.

Wrth ddrafftio fy Ngofynion Gweithredu, a gyhoeddir dan adran 3 Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006, rwyf wedi ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, ochr yn ochr â'r rhaglenni trawsnewid polisi a gwasanaeth deddfwriaethol ar draws Cymru, i adolygu a oes camau digonol yn cael eu cymryd i ddiogelu a hyrwyddo buddiannau pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal preswyl a nyrsio gan gyrff cyhoeddus a darparwyr annibynnol. Mae fy Ngofynion Gweithredu felly yn seiliedig ar

dystiolaeth ac ar fy nghasgliadau cyffredinol allweddol a'r angen i weithredu ymarfer da ar hyd a lled Cymru.

Mae fy Ngofynion Gweithredu yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac maent yn disgrifio'r camau sydd angen eu cymryd ar draws Cymru er mwyn sicrhau bod ansawdd bywyd yn ganolog i ddarpariaeth gofal yn yr holl gartrefi gofal, ynghyd â'r effaith ar bobl hŷn os na fyddwn yn llwyddo i gyflawni hyn.

Bydd y Gofynion yr wyf yn disgwyl i chi eu hateb yn gofyn i chi ymateb erbyn 2 Chwefror 2015 yn unol â'r amserlenni a bennwyd ar gyfer eich ymateb fel y nodir yn adran 15 Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru a Rheoliadau 2007. Mae'r cyfnod hwn o amser yn rhoi cyfle i chi drafod logisteg ac ymarferoldeb gyda fy swyddfa, a hyd yn oed i gynnig gweithrediadau amgen a all roi'r canlyniadau y disgwyliaf eu gweld ar gyfer pobl hŷn.

Dylai eich ymateb ysgrifenedig gynnwys cofnod o'r canlynol:

- Sut rydych wedi cydymffurfio; neu'n bwriadu cydymffurfio â'r Gofynion Gweithredu
- Pam nad ydych chi wedi cydymffurfio â'r Gofynion Gweithredu neu
- Pam nad ydych chi'n bwriadu cydymffurfio â'r Gofynion Gweithredu.

Mae'n ofynnol fy mod yn cadw cofrestr o'r Gofynion Gweithredu a wneir yn fy adroddiad a'r camau a gymerir fel ymateb i hynny, a bydd modd i'r cyhoedd ei weld. Bydd yr holl ymatebion yn cael eu cyhoeddi ar y wefan ac ar gael i unigolion ar gais, ynghyd â'm sylwadau fel Comisiynydd ynghylch a yw eich ymateb yn ddigonol wrth gydymffurfio â'r Gofynion Gweithredu.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach, ynghylch y llythyr hwn neu os hoffech gysylltu â'm swyddfa i drafod sut y gallech gwrdd â'r Gofynion Gweithredu orau, cysylltwch â Daisy Cole, Cyfarwyddwr Lles a Grymuso ar 08442 640670.

Yn gywir



**Sarah Rochira**  
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

**Cafodd y llythyr hwn ei gyhoeddi dan adran 3 o Ddeddf  
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Cymru) 2006**

Cc – Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol